

# Nicholas Daniels

Yma yng Nghymru, mae un peth rydym wedi rhagori ynddo ar hyd y canrifoedd, a hynny yw dweud stori! Mae'n rhan o gymeriad y Cymry i adrodd storïau'n ddiddorol, gan ddefnyddio iaith fywiog ac ystum brwdfrydig. Dwi'n meddwl ei fod yn ein gwaed yn rhywle. Rydyn ni'n rhan o'r traddodiad Celtaidd o drosglwyddo storïau o genhedlaeth i genhedlaeth. Mae yna hen bennill sy'n disgrifio'r traddodiad yma i'r dim:

Yr hen wŷr llwyd o'r gornel  
Gan ei dad y clywodd chwedel,  
A chan ei dad y clywodd ynte  
Ac ar ei ôl mi glywes inne.

Erbyn heddiw, rydym yn byw mewn byd llawn llyfrau, ac yn llyfrau'r byd mae holl wybodaeth dynolryw. Diolch byth am lyfrau! Hoffwn i ddim meddwl faint o chwedlau a straeon anhygoel rydym wedi eu colli am byth am na chawson nhw erioed eu rhoi ar bapur!

Felly, pan dwi'n cael syniad am stori, dwi ar bigau'r drain eisïau ei rhoi ar bapur . . . neu gyfrifiadur i fod yn fanwl gywir! Pan fo syniad yn dechrau gwau yn fy mhen, dwi'n cilio i'm swyddfa ac yn teipio fel ffŵl! Weithiau, wna i ddim gadael y tŷ am ddyddiau, cyn belled â bod gen i ddigon o goffi wrth law i'm helpu i ddal ati!

Fy ngwaith llawn amser yw bod yn athro ysgol gynradd, a dwi'n defnyddio llawer o syniadau a phrofiadau o'r gwaith hwnnw yn fy llyfrau. Dwi'n darllen nifer fawr o lyfrau i blant fy nosbarth ac yn darllen hefyd yn fy amser hamdden – nid er mwyn cael syniadau, ond am fy mod innau'n hoff o glywed storïau yn ogystal â'u hysgrifennu!

Os ydych chi am roi cynnig arni, ysgrifennwch am rywbeth sy'n gyfarwydd neu sydd o ddiddordeb i chi . . . ond cofiwch gadw'ch cynulleidfa mewn cof. Eich gwaith chi fel awdur yw diddanu eraill yn ogystal â chi eich hun! Mae angen mwy o awduron arnom yng Nghymru, a chi blant Cymru yw storïwyr y dyfodol. Beth amdani?

Straeon heddiw yw chwedlau fory, ac os byddaf yn lwcus iawn, efallai bydd fy storïau yn dal i roi boddhad i eraill ymhen can mlynedd!

## CYFRES FFLACH DONIOL

Gornest Reslo'r

Menywod Cinio £3.75

Ysgol Lol £4.50

Milltith y Fenyw Ginio £4.50

Sialens Siôn Corn £4.99

(Dref Wen)





**Enw** David Nicholas Daniels

**Dyddiad Geni** 8 Rhagfyr 1974

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**

Ces fy ngeni yn Llanelli a'm magu yn Llangennech – pentref bach ar gyrion tref Llanelli.

**Ble cawsoch chi eich addysg?**

Ysgol Gynradd Llangennech ac Ysgol Gyfun y Strade, Llanelli.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**

Doeddwn i ddim yn hoffi braidd dim am yr ysgol . . . sy'n rhyfedd iawn o feddwl fy mod i'n athro yn awr!

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?**

Pan ofynnodd Mam imi beth oeddwn i am fod ar ôl tyfu, mae'n debyg i mi ddweud 'eliffant'! Cofiwch, dim ond tair mlwydd oed oeddwn i ar y pryd! Pan oeddwn yn hŷn, roeddwn i am fod yn filfeddyg . . . nes imi sylweddoli y base'n rhaid imi drin anifeiliaid sâl ofnadwy.

**Beth oedd eich hoff lyfr pan yn blentyn?**

*Tân ar y Comin* gan T. Llew Jones.

**Beth yw eich hoff ddi-ddordebau?**

Ysgrifennu storïau a barddoniaeth, wrth gwrs! Dwi hefyd yn hoff iawn o ddarllen a mynd â 'ngli am dro.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**

Fy nheulu, fy ffrindiau a 'ngli!

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**

Pobl anghwrtais!

**Pryd dechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?**

Mae gen i lyfr o farddoniaeth y dechreuais ei ysgrifennu pan oeddwn yn wyth mlwydd oed!

**Pa un oedd eich llyfr cyntaf?**

*Gornest Reslo'r Menywod Cinio.*

**Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu?**

Weithiau. Y peth anodd yw cael amser i wneud hynny! Roeddwn i'n ysgrifennu ar ddydd Nadolig y llynedd!

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**

O fywyd bob dydd, y bobl rwy'n cwrdd â nhw . . . a rhyw gornel bach drygionus o'm dychymyg!

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?**

Oes! Er bod ysgrifennu'n rhywbeth rydych yn ei wneud i blesio'ch hunan, mae'n rhaid cofio pwy yw eich cynulleidfa – pwy sy'n mynd i ddarllen eich gwaith; ysgrifennwch ar eu cyfer nhw.

**Oes rhai o'ch cymeriadau wedi eu seilio arnoch chi?**

Efallai fod darnau bach ohonof i ym mhob cymeriad . . . ond dydy hynny ddim yn fwriadol!

**Pa un yw eich hoff lyfr?**

Wn i ddim! Mae hynny fel dewis ffefryn o blith eich teulu. Mae'n amhosib i mi!

**Pa un yw eich hoff gymeriad?**

Mrs Sharp! Mae hi'n cŵl – mewn ffordd hunllefus!

**Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid andanoch eich hunan?**

Dwi ddim yn meddwl. Dylen ni i gyd fod yn hapus fel rydyn ni.

**Pa raglenni teledu yw eich ffefrynnau?**

Dydwn i ddim yn un sy'n hoffi gwylio'r teledu. Mae'n llawer gwell gen i lyfr da!

**Beth yw eich hoff fwyd?**

Pitsa a siocled – ond nid gyda'i gilydd, wrth gwrs!

**Beth yw eich hoff gân?**

Rydw i'n dwlu ar emynau Cymraeg!

**Beth yw eich hoff ffilm?**

*Eisteddfod! Eisteddfod!*

**Beth yw eich hoff atgof?**

Eistedd ar lawnt flaen y tŷ a Mam yn fy nysgu i ysgrifennu f'enw. Roedd hynny cyn imi ddechrau'r ysgol.

**Beth yw eich hoff le yn y byd?**

Mae adfail hen ffermdy ger afon Morlais yn Llangennech. Pan fyddaf yn ymweld â Mam a Dad rwy'n mynd â'r ci am dro yno. Mae'n fan mor heddychlon.

**Oes gyda chi un peth rydych yn ei drysori'n fwy na dim arall?**

Fy nheulu . . . a hefyd modrwy briodas Mam-gu. Cefais i hi ar ôl iddi farw. Mae'n arbennig iawn i mi.

**Beth sy'n gwneud i chi chwerthin?**

Llawer iawn o bethau! Does dim byd gwell na chwerthin iach! Roedd fy athrawon yn yr ysgol yn dweud fy mod yn chwerthin gormod!

**Unrhyw gyfrinachau eraill yr hoffech eu rhannu â phlant Cymru?**

Y gyfrinach fwyaf yn y byd yw y gallwch fod yn unrhyw beth a fynnoch chi pan fyddwch chi'n hŷn – dim ond i chi weithio'n ddigon caled!



CYNGOR LLYFRAU CYMRU  
WELSH BOOKS COUNCIL  
2006

*gwales.com*  
Llyfrau ar-lein  
Books on-line

Noddir gan  
Lywodraeth Cynulliad Cymru  
Sponsored by  
Welsh Assembly Government

